Gorchmynion *Commands*

Themau - *Themes*

Gorchmynion *Commands*

Patrymau laith - *Language patterns*

I ffurfio'r 'gorchymyn', mae angen ychwanegu -wch (ffurfiol a lluosog) ac -a (anffurfiol ac unigol) at fôn y ferf.
To form the commands we need to add -wch (formal and plural) and -a (informal and singular) to the root of the verb.

Berf *Verb*	Bôn *Root*	Ffurfiol *Formal*	Anffurfiol *Informal*	Saesneg *English*
symud	symud	symudwch	symuda	move!
gyrru	gyrr-	gyrrwch!	gyrra!	drive!
cofio	cofi-	cofiwch!	cofia!	remember!

Ffurfiau afreolaidd. Dyma'r rhai mwya cyffredin
Irregular forms. Here are some of the most commomly used.

Berf *Verb*	Ffurfiol *Formal*	Anffurfiol *Informal*	Saesneg *English*
Peidio	Peidiwch!	Paid!	Don't
Mynd	Ewch!	Cer!	Go!
Dod	Dewch!	Dere!	Come!

Cofiwch mae angen 'â' ar ôl peidio ('ag' o flaen llafariad).
Remember that we need 'â' after peidio and an aspirate mutation ('ag' in front of a vowel).

Paid â bod yn hwyr. *Don't be late.*
Peidiwch ag arafu. *Don't slow down.*
Paid â chodi'n hwyr. *Don't get up late.*

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Dyma enghreifftiau o sut i ffurfio'r gorchmynion
Here are some examples of how to form the commands

Terfyniad berf Verb ending	Berf Verb	Bôn Root	Gorchmynion Commands	Saesneg English
-io				
-io	Ffoni**o**	Ffoni -	Ffoni**a** / Ffoni**wch**	Phone!
dim none				
	Edrych	Edrych -	Edrych**a** / Edrych**wch**	Look!
llafariaid **vowels**				
-u	Plygu	Plyg-	Plyga Plygwch	Bend!
-ed / -eg				
-ed	Cerdd**ed**	Cerdd -	Cerdd**a** / Cerdd**wch**	Walk!
-eg	Rhed**eg**	Rhed -	Rhed**a** / Rhed**wch**	Run!
-ed	Yf**ed**	Yf -	Yf**a** / Yf**wch**	Drink!
-oi				
	Rh**oi**	Rho -	Rh**o** / Rho**wch**	Put! Give!
eraill other				
	Aros	Arhos -	Arhosa / Arhoswch	Wait! Stay!
	Dweud	Dwed -	Dwed**a** / Dwed**wch**	Say!
	Cau	Cae -	Cae**a** / Cae**wch**	Close! Shut!
	Gwrando	Gwrand -	Gwrand**a** / Gwrande**wch**	Listen!
	Meddwl	Meddyli -	Meddyli**a** / Meddyli**wch**	Think!
Afreolaidd **irregular**				
	Mynd		Cer / Ewch	Go!
	Dod		Dere / Dewch	Come!
	Gwneud		Gwna / Gwnewch	Do! Make!
	Bod		Bydd / Byddwch	Be!
	Peidio		Paid / Peidiwch	Don't!

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain / *Audio task*

Pa un o'r geiriau hyn sy DDIM yn y sgript?
Which one of these words are NOT in the script?

dere
bydd
tynna
rho
symuda
agora
cer
tro
edrycha
gofynna
gwranda

Tasg fideo / *Video task*
Llenwch y bylchau gyda ffurf gywir y ferf.
Fill in the gaps with the correct form of the verb.

1. _____ yfed digon o ddŵr. (cofio)
2. _____ yn siwr bod digon o le. (gwneud)
3. _____ eich breichiau. (codi)
4. _____ i fyny. (edrych)
5. _____ eich breichiau. (ysgwyd)
6. _____ ymlaen. (plygu)
7. _____ eich dwylo ar eich traed. (rhoi)
8. _____ eich dwylo ar eich pen. (rhoi)
9. _____ i'r chwith. (troi)
10. _____ yn yr unfan. (cerdded)
11. _____ yn yr unfan. (rhedeg)
12. _____ ag arafu. (peidio)
13. _____ i fyny. (neidio)
14. _____ ! (ymlacio)

Sgript Sain - *Audio Script*

Nia: Sut mae Delyth!

Delyth: O helo Nia!

Nia: Wyt ti'n mynd i'r briodas ddydd Sadwrn.

Delyth: Ydw, wrth gwrs.

Nia: Wel dere gyda fi yn y car.

Delyth: Diolch Nia.

Nia: Bydd yn barod erbyn hanner awr wedi deg.

Delyth: Hanner awr wedi deg.

Nia: Ie. Paid â bod yn hwyr!

Delyth: Iawn!

.....

Nia: Hei, rwyt ti'n edrych yn smart!

Delyth: Diolch yn fawr.

Nia: Tynna dy siaced, a rho'r het fawr yna ar y sedd gefn.

Delyth: Beth am yr anrhegion?

Nia: Symuda nhw i'r bŵt.

Delyth: Agora'r bŵt te!

Nia: Dyna fe, mae e ar agor nawr. Bydd yn ofalus.

Delyth: Reit bos!

Nia: Iawn? Bant â ni. Wyt ti'n gwybod ble mae Eglwys y Santes Fair?

Delyth: Ydw, dw i'n meddwl. Cer yn syth ymlaen a thro i'r dde dros y bont.

Nia: Dros y bont! Wyt ti'n siŵr? Edrycha ar y map!

Delyth: Does dim map gyda fi.

Nia: O Delyth! Agora'r ffenest a gofynna i'r dyn wrth y gât.

Delyth: Esgusodwch fi. Ble mae Eglwys y Santes Fair os gwelwch yn dda?

Y dyn: Trowch i'r chwith ar ôl pasio'r parc ac ewch ymlaen am ddwy filltir.

Nia: Diolch yn fawr.

Y dyn: Gyrrwch yn ofalus.

Delyth: Reit rho dy droed i lawr – mae'r briodas am unarddeg o'r gloch!

Nia: Hy! Tro i'r dde, dwedaist ti.

Delyth: Ie, wel, dim ots nawr. Rho dy droed i lawr….

Geirfa

priodas – *wedding*
anrhegion – *presents*
yn syth ymlaen – *straight on*
dim ots - *no matter*

Sgript Fideo - *Video Script*

TELEDU: Cofiwch yfed digon o ddŵr. Gwnewch yn siwr bod digon o le. Dych chi'n barod i ddechrau?

JAMES: O ydw.

TELEDU: Iawn. Codwch eich breichiau….un ar y tro ac ymestyn...ac ymestyn.

JAMES: Ymestyn.

TELEDU: Edrychwch i fyny... unwaith eto.... i fyny ac ymestyn ….ac ysgwydwch eich breichiau.

JAMES: Ysgwydwch eich breichiau.

TELEDU: Plygwch ymlaen yn ara deg …

JAMES: Plygwch ymlaen yn ara deg ….

TELEDU: ... rhowch eich dwylo ar eich traed.

JAMES: Rhowch eich dwylo ar eich traed! Dim gobaith!

TELEDU: Rhowch eich dwylo ar eich pen...

JAMES: Rhowch eich dwylo ar eich pen

TELEDU: Trowch i'r chwith …. ac yna trowch i'r dde.

JAMES: Trowch i'r chwith, yna trowch i'r dde.

TELEDU: Dyna ddigon o ymestyn. Nesa, cerddwch yn yr unfan. Codwch y pengliniau yna'n uchel.

JAMES: Dw i'n trio!

TELEDU: Rhedwch yn yr unfan. Codwch y pengliniau eto. Peidiwch ag arafu.Neidiwch i fyny ac i lawr... tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg. … ac ymlaciwch.

Geirfa

un ar y tro – *one at a time*
ymestyn – *(to) stretch*
ysgwyd – *(to) shake*
plygu – *(to) bend*
pengliniau – *knees*
yn yr unfan – *on the spot*

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*
gwranda

Tasg fideo / *Video task*

1. Cofiwch yfed digon o ddŵr.
2. Gwnewch yn siŵr bod digon o le.
3. Codwch eich breichiau.
4. Edrychwch i fyny.
5. Ysgwydwch eich breichiau.
6. Plygwch ymlaen.
7. Rhowch eich dwylo ar eich traed.
8. Rhowch eich dwylo ar eich pen.
9. Trowch i'r chwith.
10. Cerddwch yn yr unfan.
11. Rhedwch yn yr unfan.
12. Peidiwch ag arafu.
13. Neidiwch i fyny.
14. Ymlaciwch!